

## Atodiad 2

### TABL CRYNO O YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION COMISIWN Y GYFRAITH

<b>Pennod 1: Cyflwyniad</b>		
	<b>Argymhelliad</b>	<b>Ymateb</b>
<b>1</b>	Rydym yn argymell na ddylid addasu'r gyfundrefn reoleiddio bresennol ar gyfer tomennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol.	Derbyn
<b>2</b>	Rydym yn argymell na ddylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd fod yn gymwys i domen y mae Rheoliadau Chwareli 1999 neu Reoliadau Mwyngloddiau 2014 yn gymwys iddynt.	Derbyn
<b>Pennod 2: Awdurdod Goruchwyllo</b>		
<b>3</b>	Rydym yn cynnig y dylid sefydlu awdurdod goruchwyllo fyddai'n gyfrifol am ddiogelwch yr holl domennydd glo anweithredol.	Derbyn
<b>4</b>	Rydym yn argymell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gorff newydd.	Derbyn
<b>5</b>	Rydym yn argymell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gorff cyhoeddus canolog.	Derbyn
<b>6</b>	Rydym yn argymell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd gyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn sicrhau diogelwch tomennydd glo, heb gyfyngu ar risgiau penodol.	Derbyn
<b>Pennod 3: Cofrestr Tomennydd</b>		
<b>7</b>	Rydym yn cynnig y dylai'r awdurdod goruchwyllo lunio a chynnal cofrestr tomennydd canolog.	Derbyn
<b>8</b>	Rydym yn awgrymu y dylai cynnwys y gofrestr tomennydd gael ei ragnodi gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.	Derbyn
<b>9</b>	Rydym yn argymell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i gynnwys ar y gofrestr unrhyw domen y mae'n ymwybodol ohoni.	Gwrthod
<b>10</b>	Rydym yn argymell y dylai perchennog neu feddiannydd y cyfan neu ran o dir a nodir mewn cofnod ar y gofrestr tomennydd gael hawl i apelio ar y sail nad oes tomen wedi'i lleoli ar y tir.	Derbyn
	Rydym yn argymell na ddylid caniatáu i arfer yr hawl i apelio er mwyn gohirio gwaith brys.	
<b>11</b>	Rydym yn argymell y dylai fod yn drosedd diannod, y gellir ei chosbi â dirwy, i fethu â hysbysu'r awdurdod goruchwyllo, o fewn terfyn amser penodedig, o fodolaeth tomen lo nad yw'r manylion wedi'u cynnwys ar y gofrestr tomennydd.	Gwrthod

	Rydym yn argymhell y dylai'r drosedd allu cael ei chyflawni gan: (1) berchennog rhydd-ddaliadol ar dir sy'n cynnwys y cyfan neu ran o domen lo o'r fath; a (2) pherchennog buddiant lesddaliad mewn tir o'r fath a roddwyd yn wreiddiol am gyfnod o fwy na saith mlynedd sydd â sail resymol dros gredu bod y tir yn cynnwys y cyfan neu ran o domen lo.	
<b>12</b>	Rydym yn argymhell y dylai cynnwys rhagnodedig y gofrestr tomennydd gael ei reoli gan p'un a yw er budd y cyhoedd i wybodaeth benodol ynghylch tomennydd glo fod ar gael i'r cyhoedd.	Bwriad i weithredu ar ffurf wedi'i haddasu
<b>13</b>	Rydym yn argymhell y dylid cael mynediad cyhoeddus i'r gofrestr tomennydd, gan ddarparu crynodeb hygyrch o wybodaeth sy'n berthnasol i ddiogelwch tomennydd.	Bwriad i weithredu ar ffurf wedi'i haddasu
<b>14</b>	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Chymdeithas y Gyfraith, yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol yng Nghymru gyda'r bwriad o sefydlu chwiliad o'r gofrestr tomennydd fel rhan o chwiliad trawsgludo safonol mewn perthynas ag eiddo yng Nghymru.	Angen gwaith pellach
<b>Pennod 4: Archwilio Tomennydd, Asesiadau Risg, Cynlluniau Rheoli Tomennydd a Dosbarthiadau Risg</b>		
<b>15</b>	Rydym yn cynnig, ar ôl cofnodi tomen ar y gofrestr, y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i drefnu archwiliad o'r domen oni bai ei fod yn ystyried bod archwiliad digon diweddar a thrwyadl wedi cael ei gynnal.	Bwriad i weithredu ar ffurf wedi'i haddasu
<b>16</b>	Rydym yn argymhell, adeg yr arolygiad, y dylai fod ddyletswydd ar berchnogion a meddianwyr tomennydd i ddarparu i'r awdurdod goruchwyllo ddogfennau yn eu meddiant sy'n berthnasol i'r domen neu'r tir y mae wedi'i leoli arno.	Bwriad i weithredu ar ffurf wedi'i haddasu
<b>17</b>	Rydym yn argymhell (1) y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i lunio asesiad risg a chynllun rheoli ar gyfer unrhyw domen sydd ar y gofrestr; (2) dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i gymeradwyo'r cynllun rheoli tomennydd; a (3) dylai'r awdurdod goruchwyllo ddyrannu dosbarthiad risg i bob tomen ar sail yr adroddiad arolygu a'r asesiad risg.	Bwriad i weithredu ar ffurf wedi'i haddasu
<b>18</b>	Rydym yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i ragnodi'r materion y dylid eu cynnwys mewn cynllun asesu a rheoli risg drwy offeryn statudol.	Bwriad i weithredu ar ffurf wedi'i haddasu
<b>19</b>	Rydym yn argymhell y dylai dosbarthiad risg tomennydd glo ystyried risg ansefydlogrwydd tomen a chanlyniadau methiant o ran sefydlogrwydd.	Bwriad i weithredu ar ffurf wedi'i haddasu

20	Rydym yn argymhell y dylai dosbarthiad risg tomennydd glo hefyd ystyried y risg y mae'r domen yn ei achosi o ran llygredd, ymlosgiad a llifogydd.	Bwriad i weithredu ar ffurf wedi'i haddasu
<b>Pennod 5: Sicrhau Cynnal a Chadw Tomennydd Risg Is</b>		
21	Rydym yn argymhell y dylai'r ddeddfwriaeth newydd ddarparu ar gyfer llunio cytundebau rhwng awdurdodau a pherchnogion neu feddianwyr tir sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr tomennydd, fydd yn darparu bod y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd yn cael ei wneud.	Derbyn
22	Rydym yn argymhell y dylai awdurdod fod yn gyfrifol am ddyletswydd i drefnu archwiliad er mwyn sicrhau y cydymffurfir â chytundeb cynnal a chadw, gyda'r pŵer i ddirprwyo archwiliadau i drydydd partïon sydd â chymwysterau addas.	Gwrthod
23	<p>Rydym yn argymhell y dylai awdurdod allu rhoi gorchymyn cynnal a chadw tomennydd pan fo'r:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>(1) perchennog neu'r deiliad tir wedi methu â chydymffurfio gyda chytundeb tomen a'u bod wedi derbyn hysbysiad rhesymol am y methiant hwnnw a chyfle rhesymol i'w unioni;</li> <li>(2) cynigwyd cytundeb i'r perchennog neu'r deiliad ac mae wedi gwrthod cytundeb â thelerau addas neu wedi methu ag ymateb o fewn 42 diwrnod;</li> <li>(3) mae'r awdurdod yn ystyried bod y gwaith a nodir yn y gorchymyn angen ei wneud ar frys, neu</li> <li>(4) ni fu'n bosibl canfod pwy yw'r perchennog er cymryd camau penodol i geisio canfod hynny.</li> </ol> <p>Rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon bod y mesurau a gynigir yn gymesur â'r amcan sydd i'w gyflawni.</p> <p>Rhaid i'r gorchymyn naill ai ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r deiliad gynnal y gweithgareddau neu ddarparu i awdurdod wneud hynny.</p> <p>Dylai fod gan y perchennog neu'r deiliad hawl i apelio yn erbyn rhoi gorchymyn, ond ni ddylai arfer yr hawl i apelio atal gwaith sy'n angenrheidiol ar frys.</p> <p>Ac eithrio yn achos gorchymyn a roddir pan fo angen gwaith brys, mae'n rhaid i'r gorchymyn ddarparu digon o amser ar gyfer gwneud apêl.</p>	Derbyn
24	Rydym yn argymhell mai'r awdurdod goruchwylio ddylai fod yn gyfrifol am y pŵer i wneud cytundebau tomennydd a rhoi gorchymynion tomennydd ar gyfer tomennydd risg is, a dylai'r ddyletswydd i oruchwylio'r cytundebau a'r gorchymynion, gan gynnwys cynnal archwiliadau, fod yn gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol.	Derbyn
<b>Pennod 6: Blaenoriaethu Gwaith ar Domennydd Risg Uwch</b>		
25	Rydym yn cynnig y dylai deddfwriaeth diogelwch tomennydd glo ddarparu ar gyfer dynodi tomennydd sydd yn bodloni'r meini prawf a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol gan yr awdurdod goruchwylio.	Bwriad i weithredu ar ffurf wedi'i haddasu

26	Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r meini prawf ar gyfer dynodi drwy ymgynghori ag arbenigwyr.	Bwriad i weithredu ar ffurf wedi'i haddasu
27	Rydym yn cynnig y dylai fod yn ddyletswydd fel arfer ar yr awdurdod goruchwyllo ei hun, yn achos tomen ddynodedig, i gynnal y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomen. Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod â'r pŵer i gontractio'r gwaith hwn allan neu ddarparu mewn cytundeb tomen i berchennog neu feddiannydd y domen wneud y gwaith pan fo'n briodol gwneud hynny.	Bwriad i weithredu ar ffurf wedi'i haddasu
28	Rydym yn argymhell y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud gwaith ar domennydd dynodedig, p'un ai gan yr awdurdod goruchwyllo neu berchennog neu feddiannydd y domen, drwy gytundeb neu orchymyn tomennydd.	Bwriad i weithredu ar ffurf wedi'i haddasu
<b>Pennod 7: Diffiniadau</b>		
29	Rydym yn argymhell, i'r graddau y mae atebolrwydd o dan ein cynllun a argymhellir i'w ysgwyddo gan berchennog, mewn termau economaidd, tir sy'n cynnwys tomen, y dylai'r perchennog hwnnw gael ei ystyried fel perchennog yr ystâd rydd-ddaliadol neu berchennog ystâd lesddaliad o 21 mlynedd neu ragor, ac eithrio lle mae'r ystâd rydd-ddaliad neu lesddaliad ar ddychweliad ar ystâd lesddaliad o 21 mlynedd neu ragor.	Derbyn
<b>Pennod 8: Pwerau Gorfodi, Troseddau ac Apeliadau</b>		
30	Rydym yn argymhell y dylai personau a awdurdodir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo fod â phŵer mynediad ar dir at ddibenion (1) archwilio, cynnal profion neu samplu ar domen lo hysbys neu a amheuir; (2) cyflawni, goruchwyllo neu arolygu gwaith cynnal a chadw neu waith adfer neu osod a monitro offer ar domen lo; a (3) chael mynediad at domen lo at y dibenion uchod. Rydym yn argymhell y dylai'r pŵer mynediad fod yn arferadwy ar ôl 48 awr o roi hysbysiad ysgrifenedig i'r perchennog, os yw'n hysbys, ac i unrhyw berson arall y gwyddys ei fod yn meddiannu'r tir, neu heb rybudd mewn argyfwng. Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo fod â'r pŵer i wneud cais i ynad heddwch am warant sy'n awdurdodi mynediad drwy rym pan fo person wedi atal neu'n debygol o atal y pŵer mynediad rhag cael ei arfer, a'i bod yn rhesymol defnyddio grym wrth arfer y pŵer hwnnw; gall y warant ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n cael mynediad yn unol â hynny gael eu hebrwng gan gwnstabl. Rydym yn argymhell y dylai personau sydd wedi'u hawdurdodi i fynd ar dir o dan y darpariaethau hyn fod â'r pŵer i fynd â'r offer angenrheidiol gyda nhw, ar yr amod bod yr hysbysiad yn cynnwys disgrifiad o unrhyw beiriannau trwm sydd i'w cludo ar y tir.	Derbyn

	Roeddem yn argymell y dylai rhwystro unrhyw berson awdurdodedig neu archwiliad, prawf neu waith fod yn drosedd diannod.	
31	Rydym yn argymell y dylai methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gorchymyn tomen fod yn drosedd diannod sydd â chosb o garchar am gyfnod heb fod yn fwy na'r gosb uchaf am drosedd diannod yn unig, neu ddirwy neu'r ddau.	Derbyn
	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio sancsiynau sifil mewn perthynas â thorri gorchymyn cynnal a chadw tomen.	
<b>Pennod 9: Telerau Ariannol Cytundebau a Gorchmynion</b>		
32	Rydym yn argymell y dylai'r ddarpariaeth y gellir ei chynnwys mewn gorchymyn neu gytundeb tomen gynnwys darpariaeth	Derbyn
	(1) ar gyfer gwneud taliadau gan berson a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn;	
	(2) ar gyfer gwneud taliadau i'r person a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn;	
	(3) ar gyfer gwerthu unrhyw ddeunyddiau a adferwyd o domen lo;	
	(4) ar gyfer talu'r enillion o werthu deunyddiau o'r fath i berson a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn; ac	
(5) ar gyfer talu iawndal gan berson a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn i berson arall a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn.		
33	Rydym yn argymell y dylai egwyddorion sy'n rheoli dyrannu cyfrifoldeb ariannol dros waith diogelwch tomennydd rhwng personau neu endidau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat gael eu pennu gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.	Derbyn
<b>Pennod 10: Sgiliau Arbenigol</b>		
34	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â sefydliadau academiaidd a chyrff proffesiynol a chyrff yn y diwydiant ym maes gwaith diogelwch tomennydd gyda golwg ar sicrhau bod cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i wneud gwaith diogelwch yn cael ei llunio.	Derbyn
<b>Pennod 11: Diogelwch Tomennydd a Deddfwriaeth Amgylcheddol</b>		
35	Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i roi cyfarwyddiadau i'r awdurdod goruchwyllo ynghylch y camau sydd i'w cymryd mewn ymateb i argyfwng cysylltiedig â thomennydd glo.	Angen gwaith pellach
	Rydym yn argymell bod y pŵer yn ddarostyngedig i ofyniad, pan fo'n bosibl, i ymgynghori â'r awdurdod goruchwyllo ac awdurdodau perthnasol eraill ynghylch telerau cyfarwyddiadau o'r fath.	
	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa mor ddymunol yw darparu, yn y ddeddfwriaeth sy'n creu'r pŵer neu mewn deddfwriaeth amgylcheddol a chynllunio, eithriad rhag unrhyw ofyniad i geisio caniatâd ymlaen llaw o dan ddeddfwriaeth gynllunio neu amgylcheddol. Dylai unrhyw eithriad o'r fath fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd i geisio caniatâd gofynnol yn ôl-weithredol.	
36	Rydym yn argymell diwygio Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) 2016 i ddiffinio argyfwng yng nghyd-destun deunyddiau tomennydd.	Angen gwaith pellach